Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Sut ddylai eich gofal cymdeithasol fod

## Canllaw i'n rheolau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, a beth maen nhw'n ei olygui chi




Ionawr 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae'r ddogfen yma yn esbonio'r: **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**Ebost:** codau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

# Cynnwys

**Pwy ydyn ni** .......... **4**

**Codau Ymarfer Proffesiynol** .......... **5**

**Am y canllaw yma** .......... **8**

**Mwy am y Cod i weithwyr** .......... **9**

**Y rheolau a beth maen nhw’n ei feddwl i chi** .......... **11**

# Pwy ydyn ni

**Gofal Cymdeithasol Cymru** ydyn ni.




Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn cael gofal cymdeithasol a chefnogaeth o ansawdd da.



Mae gofal cymdeithasol yn meddwl gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda'u bywyd bob dydd. Er enghraifft:

- gofal personol
- cartrefi gofal
- cartrefi nyrsio
- byw â chymorth
- canolfannau dydd.



Rydych chi'n gallu gwylio ein fideo i wybod mwy am ofal cymdeithasol: www.youtube.com/watch?v=KQ5y0VxOtgo

# Codau Ymarfer Proffesiynol





Mae gennym ni 2 Cod Ymarfer Proffesiynol.




Maen nhw’n helpu i wneud yn siŵr eich bod chi’n cael gofal a chefnogaeth dda.

Maen nhw’n cael eu galw yn:




- Y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol**




- Y **Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol**



Fe fyddwn ni’n eu galw’n Codau yn fyr.

**Y Cod ar gyfer cyflogwyr:**




Dyma restr o reolau ar gyfer **cyflogwyr** - y bobl sy’n cyflogi ac yn rheoli gweithwyr gofal cymdeithasol.



Maen nhw’n dweud beth ddylai cyflogwyr ei wneud i wneud yn siŵr bod eu gweithwyr:



- yn ddiogel



- wedi’u hyfforddi ac mae ganddyn nhw’r sgiliau cywir



- yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen i roi gofal cymdeithasol da.

**Y Cod ar gyfer gweithwyr:**



Dyma restr o reolau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.



Mae'r rheolau'n disgrifio sut mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol weithio.



Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

- dilyn y Cod
- gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n achosi niwed
- defnyddio'r Cod i lywio eu gwaith
- chwilio am ffyrdd o wella eu sgiliau a'r gofal maen nhw'n ei ddarparu.



# Am y canllaw yma



Mae’r canllaw yma yn esbonio’r Cod ar gyfer gweithwyr.



Mae’n disgrifio beth rydych chi’n gallu ei ddisgwyl gan eich gweithwyr gofal cymdeithasol.



Mae’n dangos i chi sut y dylai gweithwyr gofal cymdeithasol:

- ymddwyn tuag atoch chi



- eich cadw chi’n ddiogel
- eich helpu i wneud dewisiadau.



Mae’n eich helpu i wybod eich hawliau a sut mae gofal da yn edrych.

# Mwy am y Cod i weithwyr



Rhaid i bob gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru ddilyn y Cod.




Rydyn ni'n cadw'r gofrestr. Mae'n rhestr o bobl sy'n cael gweithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae pawb ar ein cofrestr:




- yn gymwys i wneud eu gwaith
- wedi cytuno i ddilyn y rheolau am sut mae'n rhaid iddyn nhw ymddwyn a chefnogi pobl



- wedi cytuno i'ch trin gyda pharch, tegwch a gofal.



Rydyn ni'n edrych i weld bod gweithwyr yn ddiogel ac yn addas i wneud eu gwaith.



Os ydych chi'n meddwl nad ydy eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio yn y ffyrdd sydd yn cael eu disgrifio yn y canllaw yma, fe fyddwn ni'n:




- edrych ar beth mae'r Cod yn ei ddweud,



- a phenderfynu a ddylen nhw aros ar ein cofrestr neu gael eu tynnu i ffwrdd.

# Y rheolau a beth maen nhw'n ei feddwl i chi

## 1. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol barchu eich barn a'ch dymuniadau. Rhaid iddyn nhw gefnogi eich hawliau

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:




- gwrando arnoch chi a beth rydych chi ei eisiau



- parchu chi



- cefnogi eich hawliau



- eich trin yn deg



- gwneud rhywbeth os ydyn nhw'n gweld unrhyw un yn cael eu trin yn annheg



- helpu chi i rannu eich barn a gwneud eich dewisiadau eich hun.

## 2. Fe ddylai gweithwyr gofal cymdeithasol fod yn ddibynadwy

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:



- bod yn onest



- siarad â chi'n glir mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall




- cadw eich gwybodaeth bersonol yn breifat a'i defnyddio i'ch helpu yn unig



- parchu eich cartref a'r pethau rydych chi'n berchen arnyn nhw




- dweud wrthych chi am y rheolau mae'n rhaid iddyn nhw eu dilyn am anrhegion a sut y dylen nhw ymddwyn



- gwneud beth maen nhw'n ddweud y byddan nhw'n ei wneud. Os nad ydyn nhw'n gallu, fe ddylen nhw ddweud wrthych chi pam



- Gwneud yn siŵr nad ydy eu meddyliau a'u teimladau eu hunain yn effeithio ar sut maen nhw'n gweithio gyda chi.

## 3. Fe fydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn cefnogi eich llesiant ac yn eich helpu i wneud eich dewisiadau eich hun



Mae llesiant yn ymwneud â theimlo'n gyfforddus, yn iach ac yn hapus.

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:



- eich helpu i gadw'n ddiogel a chefnogi eich llesiant



- eich helpu i wneud cwynion neu ddweud os ydych chi'n anhapus am unrhyw beth



- gwneud popeth maen nhw'n gallu i'ch helpu i wneud eich penderfyniadau eich hun



- gweithio gydag eraill i wneud yn siŵr eich bod chi’n cael y gofal a’r gefnogaeth orau



- siarad neu adrodd am unrhyw beth sydd yn gallu niweidio pobl.

## 4. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol barchu eich hawliau i gymryd risgiau

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:



- eich helpu i wneud dewisiadau, hyd yn oed os ydyn nhw'n cynnwys risgiau, tra'n eich helpu i ddeall eich dewisiadau a chadw'n ddiogel



- dilyn rheolau am eich cadw'n ddiogel



- edrych i weld os ydy eich ymddygiad chi neu ymddygiad eraill yn gallu achosi niwed



- cymryd camau i leihau risgiau a chadw chi ac eraill yn ddiogel



- rhoi gwybod am unrhyw risgiau i ddiogelwch pobl



- rhannu gwybodaeth os ydy rhywun yn gallu bod mewn perygl. Rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau am rannu gwybodaeth.

## 5. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ymddwyn yn iawn y tu mewn a'r tu allan i'r gwaith

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:



- peidio â'ch brifo na manteisio arnoch chi, eich gofalwyr, neu weithwyr eraill



- dilyn rheolau i gadw eu perthynas â chi yn ddiogel ac yn deg



- cadw perthynas waith dda gyda:
  - pobl maen nhw'n gweithio gyda nhw
  - pobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw
  - teuluoedd a gofalwyr



- peidio â mynd allan gyda, neu fod yn ffrindiau agos iawn gyda rhywun maen nhw'n ei gefnogi neu eu teulu.



- dweud wrth eu cyflogwr am unrhyw beth sydd yn gallu effeithio ar eu gwaith



- peidio â thorri'r gyfraith, a gwybod bod torri'r gyfraith yn gallu effeithio ar eu swydd



- dweud wrth eu cyflogwr a Gofal Cymdeithasol Cymru os ydyn nhw'n cael eu harestio neu eu cyhuddo o drosedd



- osgoi rhoi eu hunain neu eraill mewn perygl



- ymddwyn yn iawn yn y gwaith, y tu allan i'r gwaith, ac ar-lein

## 6. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol gymryd cyfrifoldeb am eu sgiliau a'u gwybodaeth

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:




- dilyn yr holl reolau a'r gyfraith



- cadw cofnodion clir a chywir am eich gofal



- dweud wrth eu cyflogwr neu'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw os oes ganddyn nhw broblemau i wneud eu gwaith yn ddiogel



- gofyn am help os nad ydyn nhw'n siŵr sut i wneud rhywbeth



- bod yn onest gyda chi os bydd rhywbeth yn mynd o'i le



- parhau i ddysgu i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau



- cymryd rhan mewn sesiynau gyda'u rheolwr i wella eu gwaith



- gweithio'n dda gyda gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill



- bod yn gyfrifol am unrhyw waith maen nhw’n ei roi i eraill



- helpu gydag unrhyw ymchwiliadau pan maen nhw’n cael cais i wneud hynny.

## 7. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n rheoli neu'n arwain staff eraill wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y Cod

Rhaid i'ch gweithiwr gofal cymdeithasol:




- defnyddio'r Cod yn eu gwaith eu hunain ac yn y ffordd maen nhw'n arwain staff.



- cefnogi staff i siarad a rhannu ffyrdd da o weithio



- gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod y Cod ac yn ei ddilyn yn eu gwaith



- darparu hyfforddiant a dysgu fel bod staff yn gallu gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth



- cyfarfod â staff a'u cefnogi i wneud eu gwaith yn dda



- edrych ar adborth, cwynion, a sut mae staff yn gwneud



- ymateb yn gyflym i unrhyw bryderon neu gwynion.

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247